


# Yr Wyddgrug yn ei Blodau 2016 – Taflen Wybodaeth

Mae'r gystadleuaeth yn agored i holl drigolion, ysgolion, busnesau a grwpiau cymunedol yn yr Wyddgrug.

**Categorïau**

## 1. Basged grog, bocs ffenestr, arddangosfa cynhwysydd blodau.



Un fasged neu gynhwysydd o unrhyw faint. Bydd y beirniaid yn ystyried y canlynol:

- Cynllun a golwg at ei gilydd
- Dewis ac ansawdd y planhigion
- Iechyd y planhigion (rhydd o blâu ac afiechydon)
- Defnyddio planhigion sy'n ystyriol o beillio
  ***www.rhs.org.uk/science/conservation/plants-for-pollinator***

Tybiau, potiau, basgedi neu unrhyw gynhwysydd creadigol planedig. Dim cyfyngiad ar faint. Sylwch mai dim ond un cynhwysydd fydd yn cael ei feirniadu fel cynnig.

Ffurflenni cais i'w dychwelyd i Gyngor Tref yr Wyddgrug erbyn $24^{ain}$ Mehefin.
Bydd beirniadu'n digwydd rhwng $11^{eg}$ a $15^{fed}$ Gorffennaf trwy drefniant blaenorol

## 2. Yr ardd flaen fwyaf trwsiadus

Gardd flaen, o unrhyw faint. Bydd y beirniaid yn ystyried y canlynol:



- Cynllun a golwg at ei gilydd a gosodiad
- Dewis ac ansawdd planhigion i roi diddordeb drwy gydol y flwyddyn
- Iechyd y planhigion (rhydd o blâu ac afiechydon)
- Glendid a thaclusrwydd yr ardd
- Defnyddio planhigion sy'n ystyriol o beillio
  ***www.rhs.org.uk/science/conservation/plants-for-pollinator***

Ffurflenni cais i'w dychwelyd i Gyngor Tref yr Wyddgrug erbyn $24^{ain}$ Mehefin.
Bydd beirniadu'n digwydd rhwng $11^{eg}$ a $15^{fed}$ Gorffennaf trwy drefniant blaenorol

**3. Yr ardd orau mewn hambwrdd** (agored i blant 16 oed ac iau**).**
Agored i blant sy'n byw neu'n mynd i'r ysgol yn yr Wyddgrug.

Creu gardd fechan mewn hambwrdd (maint mwyaf 38cm o hyd wrth 24cm o led).

Rhaid i'r ardd mewn hambwrdd fod yn symudol a'i chludo i'r bwrdd beirniadu ar ddydd Sadwrn 2il Gorffennaf.

*Dyma ychydig syniadau i helpu i chi greu gardd fuddugol mewn hambwrdd:*

*a) Dewiswch blanhigion sy'n hawdd gofalu amdanynt ac a fydd yn aros yn fach.*

*b) Sicrhewch fod dŵr yn gallu draenio o'ch gardd pan fyddwch yn dyfrhau. Rhowch ychydig o gerrig yng ngwaelod y cynhwysydd ac yna'i lenwi â phridd.*

*c) Rhowch thema i'ch gardd. Gallech ddefnyddio ffigurau llawn mynd, dodrefn tŷ doli, anifeiliaid tegan neu hyd yn oed ddinosoriaid! A gallech wneud adeiladau allan o gerdyn, clai neu bren.*

*ch) Gwnewch rywfaint o dirweddu. Defnyddiwch briciau lolipop a/neu frigau i adeiladu ffensys a gro neu gerrig mân i wneud llwybrau. Ac mae modd defnyddio caeadau potiau bwyd, papur gloyw neu ddrychau bach i wneud pwll. Gallech hefyd ddefnyddio pethau fel mwsogl, rhisgl coed, tywod a chregyn.*





Ffurflenni cais i'w dychwelyd i Gyngor Tref yr Wyddgrug erbyn 24ain Mehefin.
Bydd beirniadu'n digwydd ar ddydd Sadwrn 2il Gorffennaf ar Sgwâr Daniel Owen. Rhaid dod â chynigion i'r bwrdd beirniadu ar y diwrnod. Bydd y cyhoedd yn cael pleidleisio ar eu hoff ardd mewn hambwrdd, a nifer y pleidleisiau fydd yn penderfynu pwy yw'r enillydd.

**4. Yr ardd naturiol orau ystyriol o fywyd gwyllt.**

Gardd flaen neu gefn / llecyn, o unrhyw faint. Bydd y beirniaid yn ystyried y canlynol:

- Cynefinoedd allweddol – darparu gymaint o gynefinoedd ag y bo modd, ar gyfer adar, trychfilod, mamolion, ymlusgiaid ac amffibiaid
- Darparu cynefinoedd i fagu a chael lloches drwy gydol y flwyddyn
- Cynefinoedd i borthi a bwydo ynddynt
- Garddio cynaliadwy – ystyried y deunyddiau a ddefnyddiwch a'u heffaith ar fywyd gwyllt y tu hwnt i'n gerddi.

*Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar wefan y RSPB*

*http://www.rspb.org.uk/makeahomeforwildlife/advice/gardening/wildlife-friendly_garden.aspx*

Ffurflenni cais i'w dychwelyd i Gyngor Tref yr Wyddgrug erbyn 24$^{ain}$ Mehefin.
Bydd beirniadu'n digwydd rhwng 11$^{eg}$ a 15$^{fed}$ Gorffennaf trwy drefniant blaenorol

**Cyhoeddusrwydd / Ffotograffau**
Byddai Cyngor Tref yr Wyddgrug yn hoffi tynnu lluniau ohonoch chi a'ch gardd / arddangosfeydd fel rhan o Gystadleuaeth yr Wyddgrug yn ei Blodau. Bydd y ffotograffau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer cyhoeddusrwydd y Cyngor a hyrwyddo'r Gystadleuaeth.

Os oes gennych unrhyw wrthwynebiad i ddefnyddio ffotograffau ohonoch chi neu eich gardd / arddangosfeydd, cofiwch ddweud hynny wrthym ar eich ffurflen gais.

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:**

Jane Evans, Swyddog Cymorth, Cyngor Tref yr Wyddgrug, Neuadd y Dref, Ffordd yr Iarll, Yr Wyddgrug CH7 1AB. Ffôn: 01352 758532. E-bost: supportofficer@moldtowncouncil.org.uk
www.moldtowncouncil.org.uk

Dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol i gael yr holl newyddion diweddaraf

Weplyfr moldtowncouncil
Trydar @moldtowncouncil

